

## Un Llais Cymru – Disgrifiad Swydd

### Swyddog Datblygu Canolbarth a Gorllewin Cymru – Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 2 Mawrth 2018 £29,226 - pro rata – isafswm o 20 awr yr wythnos

#### Pwrpas Cyffredinol

Bod yn brif gyswllt i aelod gynghorau Un Llais Cymru mewn rhanbarth; darparu cyngor ac arweiniad i aelod gynghorau; gweinyddu'r Pwyllgor Ardal perthnasol a gynhelir yn y rhanbarth hwnnw; a gweithredu'n swyddog arweiniol Cymru gyfan ar themâu penodol.

#### Dyletswyddau generig

1. Datblygu perthynas waith agos ac effeithiol gyda phob aelod gyngor yn un o ranbarthau Cymru, a bod yn bwynt cyswllt cyntaf gydag Un Llais Cymru ar gyfer y cynghorau hynny.
2. Trefnu cyfarfodydd Pwyllgorau Ardal, cyfleusterau cyfieithu (yn ôl y gofyn), gwahodd siaradwyr a pharatoi cofnodion (isafswm o bedwar cyfarfod y flwyddyn i bob Pwyllgor Ardal), gweithio'n agos gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Ardal.
3. Derbyn, cofnodi, gweithredu ac ymateb i ymholiadau gan aelod gynghorau unigol, gan gymryd perchnogaeth uniongyrchol o bob ymholiad (boed angen cyfeirio'r ymholiad at rywun arall ai peidio).
4. Trefnu, hwyluso ac efallai cyflwyno hyfforddiant i aelod gynghorau, gweithio gyda phartneriaid allanol yn ôl y galw.
5. Mynd ati o ddifrif i hyrwyddo buddiannau ymaelodi ag Un Llais Cymru, gan gynnwys rhoi cyflwyniadau i gynghorau nad ydynt yn aelodau a chynorthwyo gyda gweithgareddau cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth Cymru gyfan.
6. Mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chynhadledd Un Llais Cymru, darparu adroddiadau a chynorthwyo gyda'r cynllunio a'r gweinyddu yn ôl y galw.
7. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau y gofynna'r Prif Weithredwr amdanynt, sy'n gydnaws â phwrpas a dyletswyddau cyffredinol y swydd.

#### Dyletswyddau penodol

Fel y Swyddog Datblygu chi fydd yn gweithredu'n swyddog arweiniol Cymru gyfan ar gyfer polisi i Un Llais Cymru.

#### Gwybodaeth, profiad a hyfedrau

- Gwybodaeth gadarn o lywodraeth leol yng Nghymru, ac os yn bosib o gyfrifoldebau cynghorau tref a chymuned a'u ffordd o weithio;
- Profiad o drefnu a gweinyddu cyfarfodydd ffurfiol a pharatoi cofnodion;
- Medrau rhyngbersonol o ansawdd uchel, gallu datblygu perthnasoedd effeithiol trwy ymddiriedaeth gydag aelod gynghorau a phartneriaid allanol eraill;
- Medrau iaith Gymraeg yn hanfodol;
- Cymhelliant uchel, gallu gweithio ar ei liwt ei hun ac yn aelod o dîm; a
- Medrau TGCh da, cyfarwydd â phecynnau MS Office, e-bost a'r Rhyngrwyd.

#### *Yn Cynrychioli Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru - Representing Community and Town Councils in Wales*